# CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2012**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd G. O. Jones - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd R.Ll. Jones - Is-Gadeirydd (Cadair)<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Jim Evans, C. Ll. Everett, Lewis Davies, R. Anthony Dew, B. Durkin, Ff. M. Hughes, K. P. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, Aled M. Jones, Eric Jones, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, Rhian Medi, C. McGregor, Bryan Owen, J. V. Owen, R. L. Owen, Bob Parry OBE, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, P. S. Rogers, E. Schofield, J. P. Williams, S. Williams. |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy<br>Dirprwy Brif Weithredwraig Dros Dro<br>Pennaeth Swyddogaeth – Cyfreithiol a Gweinyddiaeth<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Pennaeth Adnoddau Dynol Dros Dro<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Swyddog Sgriwtini<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Swyddog Cyfathrebu.<br><br>Y Comisiynwyr Alex Aldridge, Byron Davies, Margaret Foster a Gareth Jones. |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Keith Evans, D. R. Hughes, T. Ll. Hughes, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams, y Comisiynydd M. Giannasi. |

Draft

---

## 1 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2012 fel rhai cywir.

Yn codi o'r cofnodion –

**Eitem 3 – Cyhoeddiadau**

Holodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas ag offrymu gweddïau ar ddechrau cyfarfodydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi derbyn llythyr dyddiedig 23 Ebrill gan Brif Weinidog Cymru, yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru ganolbwyntio, yn yr amseroedd economaidd anodd hyn, ar faterion yn ymwneud â diogelu gwasanaethau a chynorthwyo ein cymunedau. Gallai Cynghorau bob amser gynnal gweddïau cyn cyfarfodydd a mater i'w benderfynu'n lleol oedd hwnnw. O'r herwydd, nid oedd yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth yn hyn o beth.

Diolchodd y Cynghorydd G. O. Parry MBE i'r Prif Weithredwr am yr eglurhad ond roedd yn siomedig gydag ateb Prif Weinidog Cymru.

## 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaeth y Cynghorydd Rhian Medi ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 6 y cofnodion hyn. Arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran mewn unrhyw drafodaeth neu bleidlais ar y mater.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y BWRDD COMISIYNWYR NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL

(i) Ar gais y Cynghorydd J. Penri Williams, estynnodd y Cadeirydd groeso i'r 10 aelod o'r Fforwm Gofalwyr Maeth. Adroddodd fod AGGCC wedi adolygu Gwasanaeth Maethu'r Awdurdod hwn yn ddiweddar. Roedd y Gwasanaeth wedi cael adroddiad da iawn ac roedd yn gwerthfawrogi'r gofalwyr maeth. Roedd y gofalwyr maeth wedi diolch i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol am y gefnogaeth a gawsant.

Roedd y Cyngor heddiw yn dymuno dangos ei werthfawrogiad i'r gofalwyr maeth am eu gwaith a'u brwdfrydedd. Byddai'r Gwasanaeth yn lansio ymgyrch newydd yfory i godi ymwybyddiaeth o gyfleon maethu yma yn Ynys Môn. Ar hyn o bryd roedd prinder o ofalwyr maeth ac roedd y Cyngor, wrth gwrs, yn cefnogi'r ymgyrch bwysig hon.

Llongyfarchwyd Bryn, mab Mrs Susan Jones a oedd yn gweithio yn Adran y Prif Weithredwr. Roedd Bryn yn gweithio yn Wylfa ac roedd wedi derbyn y gwobrau isod mewn seremoni a gynhaliwyd ym Manceinion ar 22 Mawrth 2012:-

Gwobr Sgiliau Niwclear y Deyrnas Gyfunol – Enillydd
Prentis Niwclear y Flwyddyn yng Nghymru.

Roedd Bryn hefyd yn un o 4 o bobl a gafodd drwodd i rownd derfynol Prentis y Flwyddyn yn y Deyrnas Gyfunol. Llongyfarchwyd ef a'i deulu gan y Cyngor am ei lwyddiannau rhagorol.

(iii) Llongyfarchodd y Cadeirydd y Comisiynwyr Alex Aldridge a Gareth Jones ar eu llwyddiant yn yr etholiadau lleol ddydd Iau diwethaf.

(iv) Ar gais y Cynghorydd G. O. Parry MBE, soniodd y Cadeirydd am ddathliadau a gynhaliwyd ar 26 Ebrill eleni i nodi canmlwyddiant taith a wnaed mewn awyren o Gaergybi i Ddulyn gan Vivian Hewitt. Ef oedd y person cyntaf i hedfan a glanio'n ddiogel ar ôl 73 o filltiroedd, a oedd yn daith hwy na'r un a wnaed gan Louis Bleriot. Ymgartrefodd Vivien Hewitt yn Glan Aber, Cemlyn, ac ef oedd yn gyfrifol am sefydlu'r lagŵn a'r trefniadau amgylcheddol yno a oedd, erbyn heddiw, yn warchodfa natur fyd enwog. Yn anffodus, ni chafodd yr achlysur gymaint o sylw oherwydd y sylw a roddwyd yn y wasg a'r cyfryngau i goffau trychineb suddo'r Titanic ac, oherwydd hynny, ni chafodd y ganmoliaeth yr oedd yn ei haeddu.

(v) Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd Raymond Jones gyfeirio at Ganolfan Codi Pwysau a Ffitrwydd Ynys Môn yn Millbank, Caergybi, ac effaith gadarnhaol y Ganolfan ar y gymuned chwaraeon yn Ynys Môn. Ers iddi agor 3 wythnos yn ôl, roedd ganddi 150 o aelodau a disgwylid y byddai'r nifer yn codi i 200 erbyn diwedd mis Mehefin. Roedd y Ganolfan yn darparu ar gyfer unigolion rhwng 7 a 73 oed. Diolchodd yn arbennig i'r Cynghorwyr W. J. Chorlton, C. Ll. Everett, P. S. Rogers ac E. Schofield am eu cefnogaeth a hefyd i Mr Ray Williams, enillydd y Fedal Aur yn y Gemau Olympaidd am ei benderfyniad a'i ddyfalbarhad yn sefydlu'r Ganolfan.

(vi) Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau am adferiad buan i wraig y Cynghorydd W. J. Chorlton wedi iddi fod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

(vii) Cydymdeimlwyd â theulu Mr. David Chambers o Borthaethwy a fu farw'n ddiweddar. Ef oedd yr arlunydd y mae ei luniau o Eglwysi, Melinau Gwynt a Phlastai yn Ynys Môn wedi eu harddangos ar lawr cyntaf prif swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

(viii) Manteisiodd y Cadeirydd hefyd ar y cyfle i gydymdeimlo gydag unrhyw aelod etholedig neu aelod o staff a oedd wedi cael profedigaeth. Safodd yr aelodau a'r swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd o'u parch.

******************************

Draft

(ix) Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y Cadeirydd y sawl a enwir isod a oedd newydd gael eu penodi i swyddi yn yr Awdurdod:-

Bethan Eleri Jones – Dirprwy Brif Weithredwraig
Arthur W. Owen – Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy
Dr. Gwynne Jones – Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Gwenan Carrington – Cyfarwyddwraig Cymuned

Yn unol ag Adran 100 4(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, roedd Cadeirydd y cyfarfod o'r farn y dylid cadarnhau'r penodiad i swydd y Dirprwy Brif Weithredwraig Dros Dro yn y cyfarfod hwn fel mater o frys.

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Cyngor gadarnhau'r penodiad penodol hwn yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

Croesawodd y Cyngor y penodiadau newydd a chadarnhaodd benodiad y Dirprwy Brif Weithredwraig.

Roedd y Cynghorydd Rhian Medi yn dymuno cofnodi nad oedd wedi pleidleisio o blaid y penodiad hwn.

************************

(x) Fel yr Aelod Lleol ar gyfer Ward Llanfair-yn-Neubwll, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i gyfeirio at y llu o arteffactau hynod a ddarganfuwyd yn Llyn Cerrig Bach ger y Fali yn Ynys Môn 70 o flynyddoedd yn ôl ac a fydd yn cael eu harddangos yn Oriel Ynys Môn dros yr haf yn sgil partneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru – National Museum Wales a Gwasanaeth Amgueddfeydd, Diwylliant ac Archifau'r Cyngor.

Byddai hwn yn gyfle gwych i bobl leol ac ymwelwyr ddysgu mwy am hanes unigryw'r Ynys trwy'r darganfyddiad eithriadol hwn. Roedd y Cadeirydd yn falch bod y trysorau hyn yn dychwelyd i Ynys Môn oherwydd ei fod wedi bod yn cefnogi'r fath fwriad ers tro byd. Byddai'r arddangosfa yn digwydd rhwng 14 Gorffennaf ac 11 Tachwedd ac anogodd bobl Ynys Môn i achub ar y cyfle i ddysgu mwy am hanes hynafol cyfareddol yr Ynys.

Draft

## 4. COFNODION ER GWYBODAETH – BWRDD CYNALIADWYEDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth, gofnodion y cyfarfodydd o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2012.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Cynaliadwyedd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2012.**

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddeiseb (wedi ei harwyddo gan 76 o bobl leol) i Gadeirydd y Cyngor ar ran Christian Voice (Ynys Môn) a oedd yn gwrthwynebu rhoi Canolfan Hamdden Biwmares ar osod ar gyfer y Mardi Gras.

**6. CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Asgell-Gomander Alex South ac i'r Awyr-Lefftenant Rob Pitt (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu) o Lu Awyr Brenhinol y Fali.

Cyflwynwyd – y dyfyniad isod o'r cyfarfod o'r Bwrdd Comisiynwyr a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2012:-

*PENDERFYNWYD:-*

- *Cymeradwyo'r Cyfamod Cymunedol rhwng y Cyngor Sir, y Gymuned Lluoedd Arfog a Medrwn Môn a'i argymell i'r Cyngor Sir.*
- *Cadarnhau y bydd swyddog yn Adran y Prif Weithredwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt sengl ar gyfer gwybodaeth am y Cyfamod Cymunedol.*
- *Cymeradwyo sefydlu Bwrdd Partneriaeth i oruchwylio'r Cyfamod a bod Cadeirydd y Cyngor yn cynrychioli'r Aelodau Etholedig.*

Cafwyd cyflwyniad gan yr Awyr-Lefftenant Rob Pitt yn amlinellu gwaith Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog. Dim ond ardaloedd a oedd eisoes wedi sefydlu cyfamod cymunedol oedd yn gallu gwneud cais am gyllid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn dan gyfamod cymunedol. Gallai unrhyw ran o'r gymuned gyflwyno ceisiadau, gan gynnwys grwpiau gwirfoddolwyr, elusennau, cyrff cyhoeddus fel ysgolion ac yn y blaen.

Cynigiwyd ac eiliwyd, yn wyneb y ffaith bod yr Arweinydd wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o sefydlu Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, mai ef ac nid Cadeirydd y Cyngor ddylai weithredu fel Eiriolydd yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr fel y cyfeiriwyd atynt uchod, ynghyd â'r gwelliant a gynigiwyd yn y cyfarfod heddiw.**

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd Mr Michael Wilson, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo rhaglen waith y Pwyllgor Safonau am 2012-13.**

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI AR GYFER 2011-12**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar waith y Pwyllgorau Sgriwtini a Throsolwg yn 2011-12.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2011-12;**
- **Penodi'r Cynghorydd Ieuan Williams i wasanaethu fel Eiriolydd Sgriwtini o fis Mai 2012 i fis Mai 2013.**

Draft

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO AR GYFER 2011-12**

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio gan y Cynghorydd Tom Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**10. AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cynghorydd Aled Morris Jones, Is-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 6 Mawrth a 30 Ebrill 2012.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a nodi hefyd, yn unol â'r Cyfansoddiad diwygiedig a fydd yn cael sylw gan y Cyngor heddiw, y bydd adroddiadau o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn y dyfodol am sylw.**

**11. AWDURDOD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cynghorydd P. S. Rogers, cynrychiolydd y Cyngor hwn ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 6 Mawrth a 30 Ebrill 2012.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a nodi hefyd, yn unol â'r Cyfansoddiad diwygiedig a fydd yn cael sylw gan y Cyngor heddiw, y bydd adroddiadau o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn y dyfodol am sylw.**

**12. ADOLYGU DOGFEN POLISI TRWYDDEDU'R AWDURDOD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Swyddog Safonau Masnach ar adolygiad o Ddogfen Polisi Trwyddedu'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**13. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL MÔN A GWYNEDD**

Adroddwyd - bod y Bwrdd Comisiynwyr, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2012, wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r isod:-

- *"y rhestr o'r materion allweddol yn Atodiad 2 yr adroddiad;*
- *y weledigaeth a gyflwynir ym mharagraff 1.12 yr adroddiad;*
- *y rhestr o amcanion strategol yn Atodiad 3 yr adroddiad;*
- *Yr opsiwn twf Tai ym mharagraff 1.14 yr adroddiad, h.y. 511 o unedau tai y flwyddyn yn ardal y Cynllun dros oes y Cynllun;*
- *Yr opsiwn dosbarthu a gyflwynir ym mharagraff 1.16 yr adroddiad."*

Roedd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn teimlo, o ran y Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â ffermydd gwynt, y dylai'r polisi fynegi pryderon y gymuned. Gofynnodd am i fap gael ei arddangos yn adeiladau'r Cyngor ac ar wefan y Cyngor a'r papurau bro a lleol yn dangos lleoliad y safleoedd a gynigiwyd ar gyfer tyrbinau gwynt. Roedd wedi ysgrifennu at y Comisiynydd i'r perwyl hwn ond nid oedd wedi cael ymateb hyd yma.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n sicrhau bod y Cynghorydd Jones yn cael ateb i'w lythyr.

Draft

(Roedd y Cynghorydd Rhian Medi yn dymuno cofnodi nad oedd wedi pleidleisio ar yr eitem hon).

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr yn hyn o beth.**

## 14. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR

Cyflwynwyd – Newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad i'r Cyngor fel y cafodd ei gyflwyno a'i dderbyn gan y Bwrdd Comisiynwyr ar 30 Ebrill 2012:-

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellwyd gan y Bwrdd Comisiynwyr yn hyn o beth ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad a gofyn i'r Comisiynwyr gymeradwyo yn unol â chyfarwyddyd y Gweinidog dyddiedig 26 Chwefror 2012.**

- **Bod y Cyngor yn derbyn y newid ychwanegol isod mewn perthynas â Chyfansoddiad y Pwyllgorau Sgriwtini (fel y manylir arno ym Mharagraff 2.6.1 yng Nghyfansoddiad y Cyngor ym Mharagraff 14.5 uchod), sef:-**

  ***Bydd enwebiadau i unrhyw ac i bob swydd sy'n cael ei dal gan grwpiau gwrthbleidiol yn cael eu gwneud gan y grwpiau unigol hynny ac yn cael eu cydnabod gan yr holl aelodau ac ni fydd grwpiau neu aelodau eraill yn dylanwadu arnynt.***

### 15. ADOLYGIAD ETHOLIADOL

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn ymwybodol bod y Comisiwn Ffiniau wedi cwblhau ei waith ac wedi cyflwyno ei argymhellion i'r Gweinidog. Unwaith y byddai'r Gweinidog wedi gwneud ei benderfyniad byddai cyfnod ymgynghori statudol o 6 wythnos. Awgrymodd y Prif Weithredwr felly y dylai Panel Adolygiad Etholiadol y Cyngor ddrafftio ymateb y Cyngor ac adrodd ar ei argymhellion i'r Cyngor ym mis Mehefin am sylw cyn anfon ymateb ffurfiol i'r Gweinidog.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant y dylid cynnal seminar ar gyfer Aelodau i drafod y ddogfen cyn iddi gael sylw gan y Panel Adolygiad Etholiadol.

**PENDERFYNWYD cytuno i'r cynnig i gynnal seminar ar gyfer Aelodau cyn i'r Panel Adolygiad Etholiadol a'r Cyngor Sir ystyried y ddogfen ymgynghori.**

### 16. ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL GAN ARWEINYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd – Adroddiad llafar gan Arweinydd y Cyngor yn adolygu'r gwaith a wnaed gan y Cyngor yn y 12 mis diwethaf.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

### 17. PREMIWM DISGYBLION

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â chais y Cyngor ar 6 Mawrth 2012 am wybodaeth ynghylch dosbarthu'r Grant Amddifadedd Disgyblion gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod eisoes wedi rhoi gwybodaeth i'r Aelodau gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu amodau'r grant ac mai'r swm ar gyfer Ynys Môn oedd £643,050. Rhoddwyd manylion am y symiau a ddyrannwyd i bob ysgol unigol ar yr Ynys. Nid oedd dim o'r grant wedi ei gadw'n ganolog ac nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw ddisgresiwn ynghylch y swm gwirioneddol a ddyrannwyd i ysgolion unigol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y diweddariad llafar a ddarparwyd gan y Prif Weithredwr.**

Draft

**18. ADRODDIAD GWAITH GAN Y COMISIYNWYR AR Y PEDWERYDD CHWARTER** (Cafodd yr eitem hon ei thrin fel un gyfrinachol dan Baragraff 4.2.10.4 y Cyfansoddiad).

Cyflwynodd y Comisiynydd Margaret Foster adroddiad Pedwerydd Chwarter y Comisiynwyr a oedd yn crynhoi'r cynnydd yr oedd y Comisiynwyr wedi ei wneud yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn amlinellu pa waith pellach yr oedd angen ei wneud i gynnal y broses adfer.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**19. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrrwyd y wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

**20. PANEL YMCHWILIO**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Cofnodion y Panel Ymchwilio a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2012.

**PENDERFYNWYD derbyn cynnwys y cofnodion.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12:50pm

**Y CYNGHORYDD G. O. JONES**
**CADEIRYDD**

Draft